**LC1320**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth i ddyroddi tystysgrifau ffytoiechydol a thystysgrifau ffytoiechydol ail-anfon ar gyfer allforio planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill i drydydd gwledydd i fodloni gofynion rheoliadau ffytoiechydol y gwledydd hynny.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwynt canlynol wedi’i nodi o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Erthygl 4 yn ymdrin â gwasanaethau cyn-allforio. Mae Erthygl 4(1) y testun Saesneg yn darparu y gall allforiwr posibl wneud cais i’r Cynulliad Cenedlaethol am wasanaeth cyn-allforio. Mae Erthygl 4(1) y testun Cymraeg yn cyfeirio at gais am dystysgrif cyn-allforio yn hytrach nag at wasanaeth cyn allforio [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Gall y mân gamgymeriad drafftio hwn gael ei gywiro trwy Femorandwm Cywiriad.

## Sylwadau

Mae teitl y testun Saesneg yn defnyddio’r ymadrodd "Export Certification"; mae’r testun Cymraeg yn

defnyddio "Tystysgrifau Allforio" sy’n cyfieithu’n llythrennol fel "Export Certificates". Er mai’r cyfieithiad Cymraeg o "to certify" yw "ardystio"; yng nghyd-destun y Gorchymyn ni ystyrir y gallai hyn gamarwain y gynulleidfa darged.

Byddai’r troednodyn i Orchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993 y cyfeirir ato yn erthygl 2(1) yn cynorthwyo’r darllenydd.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mehefin 2006